



Mick Antoniw AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

SeneddCLA@cynulliad.cymru

27 Mawrth 2019

Annwyl Mick

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 21 Chwefror 2019 ynglŷn â'r ohebiaeth yngylch:

- **Dehongli Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a'r Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin; a**
- **Craffu ar reoliadau sy'n deillio o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018**

Rydym wedi cyfnewid nifer o lythyron mewn perthynas â'r materion hyn yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf. Mae rhaglen Offerynnau Statudol y DU lle mae'n ymwneud â chymhwysedd datganoledig wedi dod i ben bellach i raddau helaeth erbyn hyn, cyn y diwrnod ymadael.

Rwyf wedi ymateb gynt ar ein dehongliad gwahanol o bolisi "newydd" mewn nifer o lythyron ac mae fy ymateb i'ch adroddiad diweddar ynghylch craffu ar reoliadau o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) yn rhoi ein safbwynt ichi ar hyn.

Rwyf hefyd wedi datgan ein safbwynt ar y broses o gydsynio i Offerynnau Statudol Llywodraeth y DU i Ymadael â'r UE mewn gohebiaeth flaenorol, yn fwyaf arbennig yn fy llythyr at y Llywydd dyddiedig 11 Ionawr 2019 y cawsoch gopi ohono.

Yn olaf, nid wyf yn derbyn eich honiad bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei anwybyddu gan y broses gydsynio hon. Mae fy ymateb i'ch adroddiad cynnydd yn nodi ein dehongliad o'r amgylchiadau hyn.

Rwyf yn credu y dylem gyntuno i anghytuno ar y materion hyn a mynd ati i ganolbwyntio ar weddill yr OSau Cymreig sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE sydd wedi'u gosod yn y Cynulliad Cenedlaethol o dan y weithdrefn gadarnhaol yn ogystal â realiti ymadael â'r UE a gweithio i warchod lles dinasyddion, cyn belled ag y bo modd, os bydd Brexit heb gytundeb.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[YP.PrifWeinidog@llyw.cymru](mailto:YP.PrifWeinidog@llyw.cymru) • [ps.firstminister@gov.wales](mailto:ps.firstminister@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd wedi creu rhaglen ddeddfwriaethol ddigynsail ar draws y DU ac rydym wedi bod yn gweithio i sicrhau y byddwn yn barod am y diwrnod ymadael. Hoffwn ddiolch ichi am ddiwydrwydd eich Pwyllgor wrth graffu ar raglen OSau Cymru a'r DU a oedd yn deillio o'r amgylchiadau eithriadol mewn perthynas â Brexit. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Pwyllgor ar y materion hyn wrth i'r diwrnod ymadael nesáu ac ar ôl hynny.

Yn gywir

A handwritten signature in grey ink that reads "Mark". The letters are cursive and connected.

**MARK DRAKEFORD**